

Crynodeb Gwirio Ansawdd Meddygfa Eglwysbach Dyddiad y gweithgarwch: 28 Mawrth 2022

Dyddiad cyhoeddi: 23 Mai 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu			
Arolygiaeth	Gofal	Iechyd	Cymru
Llywodraeth Cymru			
Parc Busnes Rhyd-y-car			
Merthyr Tudful			
CF48 1UZ			

Neu

Ffonio: 0300 062 8163

E-bostio: agic@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ein dull gweithredu

Ymgwymerodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) â gwiriad ansawdd o bell o Feddygfa Eglwysbach fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Meddygfa Eglwysbach yn bractis meddyg teulu aml-safle wedi'i leoli ym Mhontypridd ac mae'n rhan o glwstwr Taf Elái. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau meddygon teulu a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ac mae'n cyflogi 14 o feddygon teulu (chwech ohonynt yn bartneriaid yn y practis), dau feddyg teulu wrth gefn, dau fferyllydd, chwe nyrs practis a chynorthwydd gofal iechyd. Mae'r practis yn bractis hyfforddi ac yn cael ei redeg o ddydd i ddydd gan reolwr y practis, gyda chymorth staff gweinyddol a derbynfa.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015 y GIG. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygu a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio'r trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r pennaeth ymarfer a rheolwr y practis ar 28 Mawrth 2022, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am eu gwasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r prif lwybrau ymholi canlynol:

- Pa newidiadau ydych chi wedi'u gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau y cynhelir safonau atal a rheoli heintiau?
- Sut ydych yn sicrhau y gall cleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed / mewn perygl) gyrchu gwasanaethau mewn modd priodol a diogel?
- Sut ydych yn diwallu anghenion cleifion Cymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn o COVID-19? Beth yw map trywydd y practis ar gyfer dychwelyd i'r lefelau o wasanaethau a ddarparwyd cyn COVID-19?
- Sut ydych yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy'n seiliedig ar hawliau'n cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?

-
- Pa drefniadau sydd ar waith i sicrhau bod trafodaeth a phenderfyniadau ‘Na cheisier dadebru cardio-anadlol’ yn briodol ac yn sensitif?
 - Pa mor hawdd ydych chi’n gallu cael gfael ar weithwyr gofal sylfaenol proffesiynol ehangach a gwasanaethau eraill megis timau iechyd meddwl, gofal eilaidd a gwasanaethau y tu allan i oriau gwaith ar hyn o bryd?

Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae’r gwasanaeth wedi ymateb i’r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae’r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli’r amgylchedd gofal i’w gadw mor ddiogel â phosib i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Yr asesiadau risg / archwiliadau amgylcheddol mwyaf diweddar
- Asesiad risg COVID-19 yr adeilad
- Polisi rheoli glanweithdra’r amgylchedd
- Cyngor COVID-19 i arweinwyr tîm

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi’u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â’u hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi cynnal asesiad risg COVID-19 cynhwysfawr i nodi a lliniaru’r risgiau cynyddol y mae’r pandemig yn eu peri i gleifion, staff ac ymwelwyr, a chawsom wybod bod y practis wedi parhau i fod ar agor gydol pandemig COVID-19.

Gwelsom dystiolaeth hefyd o gyfathrebiadau electronig mewnol a oedd yn manylu ar yr addasiadau a wnaed i’r gwasanaethau a gynigir yn y practis meddygol i sicrhau amgylchedd diogel i bawb, ar bob cam o daith y claf.

Cawsom wybod bod yr amgylchedd yn cael ei fonitro’n ddyddiol gan reolwr y practis. Cawsom wybod hefyd fod y practis meddygol, o ddechrau’r pandemig, wedi bod yn gweithredu polisi drws dan glo i sicrhau mai dim ond y cleifion hynny ag apwyntiad, neu a oedd wedi eu gwahodd fel arall i fynychu’r practis, oedd yn gallu cael mynediad. Dim ond os oedd gwir angen y caniatawyd i ofalwyr fynychu gyda chleifion. Dywedwyd wrth gleifion a gofalwyr i wisgo masg wrth fynychu ac i ddiheintio eu dwylo â hylif alcohol wrth ddod i mewn i’r practis a chymerwyd eu tymheredd. Yn ogystal â hyn, gofynnwyd cyfres o gwestiynau sgrinio i wirio am symptomau COVID-19 posibl.

Gosodwyd sticeri ar y llawr i atgoffa cleifion i gadw pellter cymdeithasol a gweithredwyd system unffordd yn y practis.

Cawsom wybod bod y dodrefn yn yr ystafell aros wedi'u symud a'r seddi wedi'u marcio i sicrhau bod cleifion yn ddigon pell oddi wrth ei gilydd. I gynorthwyo gyda hyn, cyfyngwyd ar nifer y cleifion a ganiatawyd yn y man aros.

Roedd y practis meddygol yn gweithredu gwasanaeth brysbennu penodol. Byddai hyn yn golygu y byddai cleifion yn defnyddio eConsult¹ neu'n archebu slot brysbennu gydag aelod o dîm y dderbynfa cyn derbyn galwad ffôn gan feddyg teulu. Ar ôl siarad â meddyg teulu, byddai'r cleifion wedyn yn derbyn cyngor neu driniaeth briodol, neu'n cael cynnig ymgynghoriad wyneb yn wyneb pe bai angen. Cawsom wybod bod apwyntiadau wyneb yn wyneb gyda nyrsys practis wedi cael eu hailgyflwyno, ac y byddai unrhyw glaf a fyddai'n cysylltu â'r practis â symptomau brys yn cael apwyntiad uniongyrchol gyda meddyg teulu neu'n cael ei gyfeirio at wasanaethau eraill yn ôl yr angen.

Cawsom wybod bod tîm y dderbynfa wedi cael eu hyfforddi i ddod yn llyw-wyr gofal² ac roeddent yn fedrus wrth adnabod symptomau mewn cleifion sydd angen asesiad a/neu driniaeth frys.

Gwelsom dystiolaeth o'r defnydd o bresgripsiynau o bell pan fyddai modd, er mwyn lleihau nifer yr ymwelwyr â'r practis. Golygai hyn y byddai ceisiadau am bresgripsiwn yn cael eu hanfon at fferyllfa ddynodedig yn uniongyrchol ac roedd yn atal yr angen i gleifion fynd i'r practis meddygol i'w casglu.

Roedd ymweliadau cartref yn parhau i fod yn weithredol ar gyfer y cleifion hynny yr oedd arnynt eu hangen, ac roedd yn rhywbeth a aseswyd fesul achos i bennu a oedd yn gwbl angenrheidiol.

Cawsom wybod bod y practis wedi cynnal gwasanaethau a chyswllt rheolaidd â chleifion oedd yn byw mewn cartrefi gofal gydol y pandemig. Dywedodd rheolwr y practis wrthym y datblygwyd proses i sicrhau bod cartrefi gofal yn gallu cael mynediad diogel i feddyg teulu penodedig ar gyfer adolygiad wythnosol o bell dros y ffôn. Yn ystod y sesiwn hon, byddai pryderon nad oeddent yn rhai brys a chynlluniau gofal yn cael eu trafod. Byddai'r meddyg teulu enwebedig yn ymweld â'r preswylwyr yr oedd angen apwyntiad wyneb yn wyneb arnynt yn y cartref, pe byddai hynny'n angenrheidiol a'i bod yn ddiogel i wneud hynny yn dilyn asesiad risg. Cawsom wybod bod chwe chartref gofal yn y grŵp clwstwr³ a bod rheolwyr pob cartref yn ymwybodol o sut i gael mynediad i ofal ar gyfer eu preswylwyr pe bai angen.

Cawsom wybod bod yr holl staff wedi ymgymryd ag adnodd Asesu Risg Gweithlu Cymru Gyfan

¹ Mae eConsult yn galluogi practisau meddygon teulu o fewn y GIG i gynnig ymgynghoriadau ar-lein i'w cleifion. Mae hyn yn galluogi cleifion i gyflwyno eu symptomau neu eu ceisiadau i'w meddyg teulu eu hun yn electronig, ac mae'n cynnig gwybodaeth hunangymorth y GIG bob awr o'r dydd, yn cyfeirio cleifion at wasanaethau, ac yn cynnig gwasanaeth gwirio symptomau.

² Mae llyw-wyr gofal yn aelodau o'r tîm gweinyddol neu dderbynfa sydd wedi cael hyfforddiant penodol er mwyn gwrando'n astud, cyfeirio, a chydabod anghenion y cleifion sy'n cysylltu â'r practis meddygol.

³ Mae clwstwr o feddygon teulu yn grŵp o bractisau meddygon teulu / meddygol o fewn lleoliad daearyddol agos sy'n cydweithio i sicrhau bod gofal yn cael ei gydlynu er mwyn hyrwyddo llesiant cleifion.

i asesu eu risgiau personol wrth barhau i gyflawni eu rôl yn ystod pandemig COVID-19, ac i sicrhau bod unrhyw addasiadau a allai fod wedi bod eu hangen wedi cael eu gwneud yn brydlon.

Roedd rheolwr y practis a'r pennaeth ymarfer yn uchel iawn eu clod, yn canmol y ffordd yr oedd y staff wedi ymateb i heriau'r pandemig er mwyn parhau i ddiwallu anghenion y cleifion a chefnogi ei gilydd.

Gwnaethom ofyn i reolwr y practis ddisgrifio'r darpariaethau sydd ar waith yn y practis meddygol ar gyfer cleifion a oedd yn dymuno cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. Cawsom wybod bod y practis yn cyflogi staff sy'n siarad Cymraeg ac yn arddangos posteri a gwybodaeth a oedd yn ddwyieithog. Yn ogystal â hyn, roedd peiriant ateb ffôn y practis yn cynnig opsiwn i gleifion gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.

I rai oedd yn siarad ieithoedd heblaw'r Gymraeg neu'r Saesneg, roedd gan y practis wasanaeth cyfieithu dros y ffôn a ddarparwyd gan y bwrdd iechyd. Ar gyfer cleifion a allai fod yn drwm eu clyw, roedd gwasanaeth dehongli hefyd ar gael drwy'r bwrdd iechyd. Yn ogystal â hyn, cawsom wybod nad oedd grisiau yn y practis, ei fod yn darparu mannau parcio i'r anabl, a bod ganddo ddolen glyw. Roedd gwybodaeth brintiedig ar gael mewn print bras i gleifion â nam ar eu golwg.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor llwyddiannus y mae'n rheoli'r risg o heintiau er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Polisiâu rheoli heintiau cyffredinol a pholisiâu penodol ynghylch COVID-19
- Cyfarpar diogelu personol a chanllawiau glanhau COVID-19 ar gyfer staff clinigol
- Polisi a gweithdrefn hylendid dwylo
- Atodiadau anafiadau nodwyddau
- Rheoli amlygiad galwedigaethol
- Amserlenni glanhau'r ystafelloedd triniaeth

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom dystiolaeth o bolisi cyfredol ar gyfer atal a rheoli heintiau. Roedd hefyd yn gadarnhaol i nodi bod gan y practis bolisi ar waith i sicrhau bod staff yn gwisgo'r cyfarpar diogelu personol cywir er mwyn lliniaru risgiau COVID-19. Roedd y polisi hwn yn ymdrin ag ym mha ardaloedd o fewn y practis yr oedd angen gwisgo eitemau arbennig o gyfarpar diogelu

personol, a rhoddwyd cyngor ar wisgo a diosg hefyd.

Gwelsom dystiolaeth o bolisi a gweithdrefn hylendid dwylo a oedd yn gynhwysfawr a chyfredol. Roedd y ddogfen hon yn nodi cyfrifoldebau gwahanol grwpiau o staff o ran sicrhau bod hylendid dwylo'n cael ei weithredu mewn modd boddhaol.

Cawsom wybod bod lefel y glanhau wedi cynyddu yn y practis ers dechrau'r pandemig. Byddai ystafelloedd triniaeth yn cael eu glanhau â chlytia diheintio cymeradwy ar ôl pob cyswllt â chlaf. Yn ogystal â hyn, byddai'r feddygfa yn cael ei glanhau ar ddiwedd pob dydd. Roedd clytia diheintio ar gael ym mhob ystafell glinigol ac roedd seddau ac arwynebau gwaith yn cael eu glanhau rhwng pob claf.

Cawsom wybod nad oedd y practis meddygol wedi cael unrhyw anawsterau o ran cael gafael ar gyfarpar diogelu personol. Roedd y practis meddygol yn archebu cyfarpar diogelu personol drwy borth gwybodaeth gofal sylfaenol wedi i weithiwr cymorth gofal iechyd gwblhau cyfrif stoc rheolaidd. Cawsom wybod na phrofodd y practis unrhyw brinder mewn cyfarpar diogelu personol gydol y pandemig.

Er mwyn sicrhau bod y cyfarpar diogelu personol yn cael ei wisgo a'i ddiosg yn gywir, gosodwyd posteri wedi'u lamineiddio ar waliau'r mannau triniaeth fel nodyn atgoffa gweledol i'r staff.

Roedd meddygon teulu a oedd yn darparu ymweliadau cartref i gleifion yn derbyn cyflenwad o gyfarpar diogelu personol i'w gario gyda nhw yn eu ceir. Darparwyd bagiau gwastraff clinigol hefyd er mwyn cael gwared ar gyfarpar diogelu personol yn ddiogel. Er mwyn amddiffyn cleifion a oedd yn byw mewn cartrefi gofal, byddai'r staff yn cynnal profion dyfais llif unffordd i wirio am haint COVID-19 cyn mynychu. Yn dilyn ymweliad cartref, byddai offer yn cael eu glanhau'n drylwyr. Gwaredwyd â'r holl wastraff clinigol unwaith yr oedd y meddyg teulu wedi dychwelyd i'r practis meddygol.

Cawsom wybod bod y practis wedi bod yn cynnal hwb ar gyfer cleifion â symptomau COVID-19, neu rai a gadarnhawyd i fod â COVID-19. Darparwyd hwn mewn clinig ategol gerllaw. Roedd gan y clinig hwn ystafell driniaeth gyda drws a oedd yn arwain yn uniongyrchol i'r tu allan. Golygai hyn ei bod yn haws rheoli cyswllt ag eraill a'i gyfyngu'n llymach.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Gwnaethom gais am amserlenni glanhau dau safle'r practis meddygol ar gyfer y tri mis blaenorol. Fodd bynnag, ni ddarparwyd y rhain i ni. Yn ystod galwad fideo'r gwiriad ansawdd, gwnaethom ofyn i'r pennaeth ymarfer a rheolwr y practis a oedd rhestrau gwirio'n cael eu cwblhau i sicrhau y cedwir at yr amserlen lanhau. Cawsom wybod nad oedd hon yn broses a oedd ar waith yn y practis ar hyn o bryd.

Gan fod y practis yn cyflogi nifer o staff sy'n gyfrifol am sicrhau bod ardaloedd o'r practis yn

cael eu glanhau'n ddigonol, rydym yn argymhell bod rhestr wirio yn cael ei rhoi ar waith ar gyfer pob ardal er mwyn sicrhau bod pob ardal yn y practis yn cael ei glanhau, a phwy sy'n gyfrifol am hyn. Byddai hyn yn sicrhau na fyddai unrhyw ardal o'r practis yn cael ei methu ac yn helpu gweithdrefnau atal a rheoli heintiau presennol i sicrhau amgylchedd diogel i staff, cleifion ac ymwelwyr.

Darparodd y practis amserlen lanhau ar gyfer yr ystafelloedd triniaeth i AGIC. Er ei bod yn gynhwysfawr ac yn nodi cyfrifoldebau'r staff, ym mis Ionawr 2020 yr adolygwyd y polisi hwn ddiwethaf, ac felly oddeutu tri mis cyn dechrau pandemig COVID-19. Yn unol â hynny, nid oedd y ddogfen yn cynnwys manylion y glanhau ychwanegol sydd ei angen oherwydd y risgiau a achosir gan COVID-19.

Mae'n bwysig bod amserlenni glanhau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys y cyngor diweddaraf. Rydym yn argymhell bod y polisi hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau yn unol â'r canllawiau cyfredol.

Yn ystod y gwiriad ansawdd, cawsom wybod nad oedd staff y practis wedi derbyn unrhyw hyfforddiant ffurfiol mewn perthynas â COVID-19. Yn ogystal â hyn, ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth i AGIC a oedd yn dangos hyfforddiant staff mewn atal a rheoli heintiau, ac ni ddarparwyd unrhyw hyfforddiant swyddogol. Yn hytrach, darparwyd hyfforddiant ar sail ad hoc. Gallai hyn olygu nad oedd y staff yn ymwybodol o'r arferion a chanllawiau diweddaraf yn ymwneud ag atal a rheoli heintiau, ac felly mae'n bosib nad oeddent wedi derbyn yr hyfforddiant priodol er mwyn sicrhau bod arferion atal a rheoli heintiau yn cael eu cynnal yn gyson.

Rydym yn argymhell bod y practis yn sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant cyfredol mewn atal a rheoli heintiau a'u bod yn cadw cofnod o'r hyfforddiant hwn i sicrhau ei fod yn cael ei ddiweddarau o bryd i'w gilydd er mwyn ymlynu at y canllawiau cyfredol.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynglŷn â'r ffordd maent wedi addasu eu gwasanaeth mewn ymateb i effaith COVID-19. Gwnaethom archwilio sut mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda thimau (neu wasanaethau) gofal sylfaenol eraill ac yn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Polisiâu/prosesau corfforaethol i sicrhau parodrwydd am argyfwng pandemig yn y dyfodol
- Cynlluniau parhad busnes
- Asesiadau risg a gymerwyd mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau, yr amgylchedd, ac iechyd a diogelwch staff

-
- Cofnodion cyfarfod tîm y practis
 - Protocol cylchdroi stoc

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwnaethom ganfod bod rheolwr y practis yn wybodus iawn am ei rôl a bod ganddo ddealltwriaeth glir o'i gyfrifoldebau. Yn ystod y gwiriad ansawdd, roedd yn amlwg bod cynllunio a gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud yn ystod y pandemig er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar staff a chleifion.

Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi datblygu cynllun parhad busnes COVID-19, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am sut i baratoi ar gyfer unrhyw argyfwng pandemig yn y dyfodol.

Gwnaethom ofyn i reolwr y practis a'r pennaeth ymarfer pa effaith yr oedd y pandemig wedi ei chael ar y gwasanaethau a gynigir i gleifion. Cawsom wybod bod rhai gwasanaethau wedi'u gohirio. Roedd y rhain yn cynnwys mân lawdriniaethau, rhai pigiadau, a chlinigau ar gyfer gosod coiliau mewngroth⁴ gan fod y rhain yn cael eu hystyried yn wasanaethau cyswllt agos.⁵ Er yr adferwyd y gwasanaethau hyn yn ddiweddar, nid oedd sbirometreg⁶ yn cael ei chynnig yn y practis mwyach. Yn hytrach, roedd angen atgyfeirio'r achosion yn allanol oherwydd y risg a achosir gan y weithdrefn hon, sy'n cynhyrchu aerosol.

Cawsom wybod bod lefelau staffio wedi'u rheoli'n dda yn ystod y pandemig, ond nodwyd bod absenoldeb staff oherwydd y pandemig wedi bod yn her i'r practis meddygol. Cynhaliwyd cyfarfodydd tîm y practis yn rheolaidd a byddai cofnodion yn cael eu gwneud.

Dywedodd rheolwr y practis a'r pennaeth ymarfer wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y bwrdd iechyd lleol a'u bod yn mwynhau perthynas waith dda. Cawsom wybod bod y bwrdd iechyd wedi darparu bwletinâu wythnosol i'r practis i'w hysbysu am unrhyw newidiadau a oedd yn effeithio ar y gwasanaethau a gynigir gan y practis.

Darparodd y grŵp clwstwr gefnogaeth bellach i'r practis. Cawsom wybod bod y clwstwr yn cynnwys saith practis meddygol / meddygon teulu arall o'r ardal leol. Cynhaliwyd cyfarfodydd o bell gyda rheolwyr practis yn wythnosol i rannu syniadau ac arferion gwaith.

Cawsom wybod nad oedd y practis wedi cael unrhyw anhawster yn cael mynediad i wasanaethau y tu allan i oriau. Roedd cyswllt â gwasanaethau y tu allan i oriau yn awtomataidd

⁴ Mae dyfais fewngroth, a elwir hefyd yn ddyfais neu goil atal cenhedlu yn y groth, yn ddyfais atal cenhedlu fach, siâp T yn aml, sy'n cael ei gosod yn y groth i atal beichiogrwydd. Mae dyfeisiau mewngroth yn ffordd gildroadwy, hirdymor o atal cenhedlu.

⁵ Gwasanaethau cyswllt agos yw'r gwasanaethau hynny sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr y gwasanaeth fod mewn cysylltiad agos â defnyddiwr y gwasanaeth, ac o'r herwydd yn ei rwystro rhag gallu cadw pellter cymdeithasol.

⁶ Spirometreg yw'r prawf mwyaf cyffredin o weithrediad yr ysgyfaint. Mae'n mesur sut mae'r ysgyfaint yn gweithio, yn benodol, faint a/neu gyflymder yr aer y gellir ei anadlu i mewn a'i anadlu allan. Mae sbirometreg yn ddefnyddiol wrth asesu patrymau anadlu sy'n nodi cyflyrau fel asthma, ffibrosis yr ysgyfaint, ffibrosis systig, a chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint.

ac yn gweithio'n dda.

Cawsom wybod bod trefniadau diogel ac effeithiol ar waith ar gyfer mynediad i weithwyr gofal sylfaenol proffesiynol ehangach a gwasanaethau eraill. Roedd y tîm eiddilwch yn arbennig o ddefnyddiol ac roedd mynediad da hefyd i wasanaethau ffisiotherapi.

Ar y cyfan, teimlai'r practis fod y trefniadau ar gyfer mynediad i wasanaethau gofal eilaidd wedi gwella ers dechrau'r pandemig. Cawsom wybod bod gwell mynediad i feddygon ymgynghorol a bod mwy o gyfathrebu yn digwydd. Dywedodd y pennaeth ymarfer wrthym fod gan yr hwb orthopedig linell ffôn uniongyrchol, a oedd yn ddefnyddiol iawn yn ei farn ef.

Gwnaethom ofyn am y trefniadau sydd ar waith ar gyfer cymorth iechyd meddwl yn y practis. Cawsom wybod bod gan y practis ymarferydd iechyd meddwl a oedd ar gael i gleifion yn y practis un diwrnod yr wythnos. Roedd mynediad i gydlynnydd lles o fewn y grŵp clwstwr. Cawsom wybod bod atgyfeiriadau i'r gwasanaeth cymorth iechyd meddwl sylfaenol yn gyflymach ar hyn o bryd na'r cyfnod aros statudol o 28 diwrnod.

Cawsom wybod bod cael mynediad i rai gwasanaethau fel ambiwlansys brys a'r llwybr brys lle'r amheuir cancer wedi bod yn heriol. Bu'n rhaid aros am gyfnodau sylweddol am ambiwlans brys ac am apwyntiadau ar gyfer achosion brys lle'r amheuir cancer. Nododd AGIC y pryderon a godwyd gan y practis yn ystod y gwiriad ansawdd.

Gwnaethom ofyn am y trefniadau sydd ar waith i sicrhau bod trafodaethau a phenderfyniadau 'Na cheisier dadebru cardio-anadlol' yn cael eu cynnal mewn modd priodol a sensitif. Cawsom wybod bod y practis yn cynnal y trafodaethau hyn mewn modd personol heb unrhyw bolisi cyffredinol. Fodd bynnag, byddai hefyd yn ymdrechu i drafod hyn wyneb yn wyneb, pan fyddai'n briodol, a byddai perthnasau hefyd yn rhan o'r drafodaeth. Ar gyfer cleifion mewn cartrefi gofal lle'r oedd ymweliadau'n gyfyngedig, gallai'r trafodaethau gael eu cynnal o bell os oedd hynny'n briodol. Cawsom wybod y byddai'r tîm eiddilwch a'r timau gofal lliniarol yn rhan o'r drafodaeth, a byddai cyfarfodydd chwarterol yn cael eu cynnal i sicrhau bod y staff dan sylw yn ymwybodol o unrhyw benderfyniadau a wneir. Byddai cleifion 'Na cheisier dadebru cardio-anadlol' hefyd yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd nyrsio ardal bob wythnos.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pryd yr aethpwyd i'r afael â'r rhain

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella

Lleoliad:

Meddygfa Eglwysbach

Ward/Adran/Gwasanaeth
(dilëer fel y bo'n berthnasol):

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Dyddiad y gweithgarwch:

28 Mawrth 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn eu cylch sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Sylwer, disgwylir i'r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd a dylid cyflwyno'r fersiwn derfynol o'r cynllun gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Cyfeirnod	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1	Dylai'r practis weithredu rhestrau gwirio'r amserlen lanhau i sicrhau bod pob eitem ar yr amserlen lanhau wedi'i chwblhau a chan bwy.	Safon 2.4 Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Bydd y practis yn gweithredu rhestrau gwirio'r amserlen lanhau. Bydd y rhain yn cael eu gwirio'n ddyddiol gan reolwr y practis ar gyfer mannau anghlinigol a chan y nyrs arweiniol ar gyfer mannau clinigol.	Rheolwr y practis a'r nyrs arweiniol	Yn cael eu gweithredu erbyn diwedd Ch2 2022 Yn cael eu monitro'n ddyddiol o hynny ymlaen. Yn cael eu

					hadolygu'n flynyddol.
2	Dylai'r practis adolygu a diweddarau amserlen lanhau'r ystafell driniaeth yn ôl yr angen, yn unol â'r canllawiau cyfredol.	Safon 2.4 Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Bydd y practis yn adolygu ac yn diweddarau amserlen lanhau'r ystafell driniaeth yn unol â'r canllawiau cyfredol. Bydd hyn yn cael ei gweithredu gan y nyrs arweiniol a'i monitro ganddi bob dydd. Bydd y rhestr yn cael ei hadolygu'n flynyddol (yn gynt os bydd y canllawiau presennol yn mynnu) gan y nyrs arweiniol a rheolwr y practis.	Rheolwr y practis a'r nyrs arweiniol	Yn cael eu gweithredu erbyn diwedd Ch2 2022 Yn cael eu monitro'n ddyddiol o hynny ymlaen. Yn cael eu hadolygu'n flynyddol.
3	Rydym yn argymhell bod y feddygfa yn sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant cyfredol mewn atal a rheoli heintiau a'u bod yn cadw cofnod o'r hyfforddiant hwn i sicrhau ei fod yn cael ei ddiweddarau o bryd i'w gilydd er mwyn dilyn y canllawiau cyfredol.	Safon 7.1 Y gweithlu	Yn unol â'r "Fframwaith Hyfforddiant Dysgu a Datblygiad Atal a Rheoli Heintiau Cymru Gyfan ar gyfer iechyd, gofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gofal plant", bydd staff y practis yn dilyn hyfforddiant atal a rheoli heintiau a ddarperir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru drwy'r platfform dysgu ar-lein https://learning.nhs.wales/ . Gweler y daflen amcanion addysgol/canlyniadau dysgu sydd ynghlwm. Bydd hyfforddiant yn cael ei gwblhau yn ystod 2022-2023. Bydd cofnod hyfforddiant yn cael ei gadw a'i ddiweddarau yn ôl yr angen yn unol â'r canllawiau	Rheolwr y practis a'r nyrs arweiniol	Gweithredu - yr holl hyfforddiant i'w gwblhau yn ystod 2022-2023. Adnewyddu rhwng bob blwyddyn a phob tair blynedd i'r staff presennol ac yn ystod cyfnod sefydlu staff newydd.

			(rhwng bob blwyddyn a phob tair blynedd ar hyn o bryd ac ar ddechrau cyflogaeth).		
--	--	--	---	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Enw: Sarah Powell

Dyddiad: 09/05/2022
Diwygiwyd 19/05/2022